Rheoli’r gwaith o gyfathrebu’r Datganiad Amgylcheddol terfynol ar gyfer datblygu ac olrhain mesurau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn un o dair safon gysylltiedig sydd, gyda'i gilydd, yn cwmpasu Asesu Effaith Amgylcheddol. Mae'r safon hon yn disgrifio'r gofynion ar gyfer rheoli'r gwaith o gyfathrebu'r Datganiad Amgylcheddol (ES) terfynol ar gyfer datblygu ac olrhain mesurau.

Mae'r gyfres o NOS yn cynnwys y canlynol:

- Safon EM22 – Paratoi ar gyfer, sgrinio, a chwmpasu Asesiadau Effaith Amgylcheddol ar gyfer cynigion datblygu
- Safon EM23 – Rheoli'r gwaith o gydlynu Asesiad Effaith Amgylcheddol a chreu Datganiad Amgylcheddol
- Safon EM24 – Rheoli'r gwaith o gyfathrebu'r Datganiad Amgylcheddol terfynol ar gyfer mesurau datblygu ac olrhain

Nid yw'r safonau a restrir uchod yn amlinellu'r gofynion manwl ar gyfer testunau asesu amgylcheddol arbenigol, ond maent yn canolbwyntio ar reoli prosiectau, cydlynu a chyflwyno cyfnodau proses EIA. Mae EIA yn broses systematig i nodi, rhagfynegi, gwerthuso a chyfathrebu effeithiau amgylcheddol gweithredoedd a phrosiectau arfaethedig.

Mae cyfnodau allweddol EIA fel a ganlyn:

1. Nodi cynigion
2. Sgrinio
3. Cwmpasu
4. Asesu effaith gadarnhaol a negyddol
5. Lleddfu
6. Paratoi Datganiad Amgylcheddol
7. Adolygu
8. Gwneud penderfyniadau
9. Olrhain (monitro)

Fel isafswm, dylai ymgynghoriad gyda chyrff statudol a phawb sydd yn gysylltiedig â neu wedi eu heffeithio gan asesiad o'r effaith amgylcheddol, ddigwydd yn ystod cyfnod cwmpasu EIA. Dylid pwysleisio, er bod EIA yn broses statudol ar gyfer rhai datblygiadau, nid yw'n broses cyfan gwbl llinellog. Mae EIA yn broses ddeinamig

aailadroddol sydd yn gofyn am ryngweithio rhwng cyfnodau wrth i'r asesiad fynd yn ei flaen, gyda dolenni adborth yn galluogi cynigion prosiect i gael eu mireinio a'u haddasu mewn ymateb i ganfyddiadau yr asesiad.

Mae'r safon hon yn cynnwys y prif broses o gyflwyno'r Datganiad Amgylcheddol yn derfynol, adolygu'r Datganiad, gwneud eu penderfyniadau ar gydsynio i ddatblygu, a chytundeb ar fesurau dilyniant.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer:

- Datblygwr â chyfrifoldeb dros gomisiynu neu reoli EIA
- Ymgynghorydd amgylcheddol neu gynghorydd â chyfrifoldeb dros gydlynu naill ai: y broses EIA llawn ar ran datblygwr, neu gyfnodau terfynol EIA yn dilyn cynhyrchu'r datganiad Amgylcheddol

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. Rheoli'r gwaith o gyfathrebu'r Datganiad Amgylcheddol (ES) terfynol i'r datblygwr i gael ei adolygu a'i gymeradwyo
2. Rheoli'r gwaith o gyfathrebu'r Datganiad Amgylcheddol (ES), cynlluniau ac adroddiadau i randdeiliaid perthnasol, yn cynnwys y rheiny â nodweddion gwarchodedig
3. Ymateb i unrhyw adolygiad annibynnol o'r Datganiad Amgylcheddol (ES) ac i faterion a chwestiynau a godwyd gan gyrff statudol a chyrff eraill
4. Gweithio gyda'r datblygwr, awdurdodau cydsynio, cydweithwyr a chleientiaid i ddatrys unrhyw faterion
5. Gweithio gyda'r datblygwr a'u cynghori ar ddatblygiad a gweithredu amodau cydsynio a/neu gytundebau cynllunio fel y maent yn berthnasol i leddfu a monitro
6. Lle bo angen, gweithio gyda'r datblygwr ar fesurau olrhain tymor hwy

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*